Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(161)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Yr Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol yng ngogledd Cymru (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Gynhadledd Fawr - y camau nesaf (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Paratoadau ar gyfer Tywydd y Gaeaf (30 munud)**

Dogfen Ategol

Cyngor ar dywydd garw

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad (30 munud)**

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru (30 munud)**

**8 Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5349 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2013.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

Memorandwm Esboniadol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  Adroddiad

**9 Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5350 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2013.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

Memorandwm Esboniadol

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)**

NDM5259 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol sy'n ymwneud â'r trefniadau archwilio ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol y mae eu hardaloedd yn rhannol oddi fewn i Gymru, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dogfennau Ategol**

Mae [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol] wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil, ewch i:
[Bill documents — Local Audit and Accountability Bill [HL] 2013-14 — UK Parliament]
[Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol]

### 11 Dadl: Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf (60 munud)

**NDM5348 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi gwaith GIG Cymru a'i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer y gaeaf o'n blaenau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y penderfyniad i ohirio llawdriniaethau orthopedig yn ardal Hywel Dda.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf fel mater o drefn, ac na ddylai arwain at ddirywiad mewn gwasanaethau.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi Cynllun Paratoi ar gyfer y Gaeaf Cenedlaethol blynyddol ar gyfer GIG Cymru; a

b) cytuno bod cynlluniau o'r fath yn destun gwerthusiad ar ôl eu rhoi ar waith er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gynlluniau arfaethedig Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ohirio'r holl lawdriniaethau orthopedig dewisol dros y gaeaf.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun paratoi ar gyfer y gaeaf pob Bwrdd Iechyd Lleol.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y cafodd 2,600 o lawdriniaethau eu gohirio y llynedd oherwydd bod mwy o bwysau dros y gaeaf ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol er mwyn osgoi unrhyw achosion o oedi neu ganslo llawdriniaethau oherwydd pwysau'r gaeaf yn y dyfodol.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod 2,713 yn llai o welyau mewn ysbytai yng Nghymru nag a oedd yn 2003, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y gwelyau sydd ar gael er mwyn helpu i ateb yr her a ddaw yn sgîl y galw dros y gaeaf.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Tachwedd 2013 i'w hateb ar 12 Tachwedd 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1315(FM)

2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1326(FM)

3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): Pa sylwadau a wnaeth y Prif Weinidog yng nghyfarfod diweddar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion? OAQ(4)1325(FM)

4. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau arfaethedig Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ohirio rhai llawdriniaethau orthopedig yn ystod y gaeaf hwn? OAQ(4)1323(FM)

5. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith o gynhyrchu Jammie Dodgers yn aros yng Nghymru? OAQ(4)1328(FM)

6. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y gallai pwerau benthyca newydd i Lywodraeth Cymru arwain at wella'r A55? OAQ(4)1331(FM)

**7. Leighton Andrews (Rhondda)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Grant Cymorth i Gyflogwyr ar gyfer cyn-weithwyr Remploy? OAQ(4)1320(FM)

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed i sicrhau cyflog cyfartal yng Nghymru? OAQ(4)1319(FM)

**9. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros i gleifion canser y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1324(FM)

**10. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiwydiant bwyd Cymru? OAQ(4)1322(FM)

**11. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch cynigion Ynni Gwynt yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1321(FM)

**12. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am werth caffael cyhoeddus i economi Cymru? OAQ(4)1333(FM)W

**13. David Rees (Aberafan)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod y chwe mis diwethaf? OAQ(4)1332(FM)

**14. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth tai yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1330(FM)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Undebau Credyd? OAQ(4)1317(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 19 Tachwedd a dydd Mercher 20 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 26 Tachwedd a dydd Mercher 27 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr a dydd Mercher 4 Rhagfyr 2013

*******************************************************************

Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cyflwyno Bil Tai (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddinas-ranbarthau (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013
- Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15 (120 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 20 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros dro (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014/15 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (5 munud)
- Dadl fer - Keith Davies (Llanelli) (30 munud)

Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y cynnydd o ran cyflwyno Strategaeth Yr Hawl i fod yn Ddiogel (30 munud)
  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (15 munud)
- Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) 2013 (15 munud)
  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r eithriad ASBO (15 munud)
- Dadl: Y manteision i Gymru i'r DU barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (60 munud)

Dydd Mercher 27 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Gwyn Price (Islwyn) (30 munud)
- Dadl fer – Julie James (Gorllewin Abertawe) (30 munud) – aildrefnwyd o 25 Medi

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Ymatebion i'r Papur Gwyn ar "Rentu Cartrefi" (30 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar benderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn

codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar Fil Cyllid y GIG (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Cyllid y Gig (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)